# SELYF ROBERTS yn DWYN I GOF HEN FEISTR Y FFIDIL

DIDDOROL iawn oedd erthygl Ioan Mai Evans yn Rhifyn Nadolig am y diweddar W. H. J. Jenkins, y fiolinydd medrus a ddaeth yn athro cerdd yn Ysgol Pen-y-bryn (fel, a lle'r oedd hi, y pryd hynny) ym Mhwllheli.

Yr oeddwn i yn ymgartrefu ym Mhwllheli pan oedd dim ond ysgerbwd pafiliwn Eisteddfod 1925 yn weddill ar gae Solomon Andrews yn y West End, bron ar gyfer ein tŷ ni yn Cardiff Road. Eisteddfod a gafodd yr enw 'Carmen Sylfa' am fod y wraig Ewropeaidd bwysig honno wedi ymweld â hi, ac ar yr un ymweliad wedi bedyddio dwy ffordd yng Nghraig-y-don, Llandudno.

Fel y dywed Ioan Mai, fe enillodd Bill Jenkins yr unawd ffidil yn yr eisteddfod honno gyda chlod mawr, ac apwyntiwyd ef ar staff yr Ysgol Sir bron yn y fan a'r lle.

Y mae'n amheus a gafodd unrhyw aelod o staff yr ysgol ardderchog honno fwy o ddylanwad nag a gafodd W. H. J. Jenkins gan iddo ymhen ychydig flynyddoedd ffurfio cerddorfa ysgol gyda'r enwocaf yng Nghymru, a hynny mewn bro lle nad oedd fawr ddim cerddoriaeth offerynnol gynt.

Yn fuan wedi iddo ddechrau ar ei waith ym Mhwllheli fe'i gwahoddwyd i ganu'r ffidil mewn rhyw gyfarfod yng Nghapel Penmownt, a bu sôn am yr achlysur hwnnw am wythnosau lawer. Canodd yr alaw Wyddelig, y *Londonderry Air* yn ddigyfeiliant nes bod y gynulleidfa'n syfrdan gan felyster y nodau. Wedi'r *debut* hwnnw yr oedd enw da Jenkins wedi ei sicrhau.

* * * *

COFIAF ei wers gyntaf yn yr ysgol. Daeth i mewn i'r dosbarth gan gludo'i offeryn annwyl dan ei fraich, ac yn y llaw arall gramoffon. Ai gwers oedd hon i fod, ai cyngerdd? Cawsom beth o'r ddau.

Canwyd record ar y peiriant o flaen y dosbarth, ac yna tynnodd yr athro'r ffidil o'i gochl ac ar unwaith dechreuodd ei ganu gyda'r gerddorfa ar y record, a ninnau'n gwrando'n astud ar bob nodyn â'n llygaid yn rhythu ar y gŵr ifanc gwallt crychiog golau a ymgollai yn ei waith. A wyddem hynny ai peidio, yr oeddem yn gwylio crefftwr dan hudoliaeth.

Roeddem wedi hen arfer â chlywed cantorion yn gwefreiddio cynulleidfaoedd: Tenorydd yr Eifl yn ailgodi Ysbryd y Mynydd, Llinos yr Eifl yn cyfarch y Golomen Wen, ie, a Leila Meganne yn crwydro rhwng Pistyll y Llan a'r Bwthyn Bach To Gwellt. Ond dyma rywbeth newydd sbon; athro ysgol yn hudo nodau a gadwai lond dosbarth o blant direidus fel llygod o ddistaw!

Ac ar ôl y perfformiad, aeth dros rai rhannau o'r darn a ganodd i ddangos fel yr oedd yr un alaw wedi ei hailadrodd mewn gwahanol gyweirnodau, un tro'n llon a'r tro arall yn lleddf. Agor ein llygaid i fyd newydd.

Yr oeddwn i wedi ei glywed yn canu'r ffidil o'r blaen, oherwydd o Ysgol Sir Tywyn yr euthum i Bwllheli, ac unwaith neu ddwy bob blwyddyn deuai Triawd neu Bedwarawd Aberystwyth — yr *Aber Trio* enwog — gyda'u hyfforddwr adnabyddus y Dr Walford Davies, i roi cyngerdd a darlith ger bron yr ysgol gyfan yn Nhywyn.

Hawdd cofio'r cyngherddau hynny gan fod gan Walford Davies wats a drawai bob awr a hanner awr, a gosodai hi ar y piano gan ddechrau'r perfformiad tua chwarter i dri. Erbyn i dri o'r gloch agosàu yr oedd pob clust i gyfeiriad y wats, a phawb yn gwrando!

* * * *

OND YR OEDD gennym ni'r hogiau a drigai yn West End Pwllheli reswm arall dros edmygu 'Jili Winks'. Dyna'r llysenw a gafodd gan blant yr ysgol ymron o'r dechreuad, a deallaf fod yr enw wedi ei gludo gydag ef o Aberystwyth, er mai Bill ydoedd i'w gyfeillion.

Yr oedd yn lletya yn West End, a gwelem ef yn fynych. Pan nad oedd ar ei feic-rasus gwelem ef yn cerdded i'r ysgol, yn aml yng nghwmni Miss Hargreaves, un o'i gyd-athrawon ac yn ferch brydweddol iawn. Roedd si yn yr awyr ynghylch y cyfeillgarwch hwn, ond os oedd sail o gwbl iddo, buont yn ddigon doeth a gofalus.

Eithr pwysicach o lawer i ni hogiau West End oedd fod Mr Jenkins yn ymweld â ni ambell noswaith yn un o ysguboriau Solomon Andrews y tu ôl i'r iard lle'r âi'r tramiau dros nos.

Yno, yn y 'sgubor fawr roeddem wedi crogi dwy neu dair siglen ar raffau hir uwchben y dâs a'r gwair, a phan ddaeth Jili Winks yno un noswaith fe gawsom fraw. Tynnodd ei siaced a dechreuodd siglo ar yr un fwyaf, ac yn sydyn yr oedd yn hongian gerfydd ei ben-gliniau, ac yna gerfydd blaenau ei ddeudroed cyn ei godi ei hun yn wyrthiol yn ôl i'w eisteddfan ar y polyn pren.

'Doedd dim diwedd ar y triciau a ddangosodd inni ar sawl noswaith wedi hynny, ac nid yn unig eu dangos ond eu dysgu i ninnau hefyd. Dysgodd bob un ohonom sut i gwympo'n ddiogel, a throi tin-dros-ben yn yr awyr, ac ymhen ychydig wythnosau roedd y mwyaf nerfus ohonom (o bai rai y pennaf oeddwn i!) yn berffaith gartrefol ar y siglenni ac yn medru'r rhan fwyaf o'r ymarferiadau.

Daeth i Bwllheli i roi addysg gerddorol i blant y Cownti Sgŵl, ond fe roes hefyd hunan-hyder a menter ynom ni hogiau'r West End.

Deëllais yn ddiweddarach mai ef oedd capten tîm acrobatig Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, ond nid wyf wedi llwyddo i gadarnhau hynny. 'Does dim dwywaith, fodd bynnag, ei fod yn acrobat o'r radd flaenaf, a chyda'i bersonoliaeth hynaws a'i gyfeillgarwch naturiol roedd ganddo ddawn i ddysgu i eraill yr hyn a wyddai, boed ym myd esthetig cerddoriaeth neu yng nghampau mwy corfforol y maes athletig.

Ymadewais â Phwllheli yn 1928 pan oedd Cerddorfa'r Ysgol ar fin cael ei ffurfio. Rai blynyddoedd wedyn ymadawodd yr athro cerdd annwyl am Lerpwl, ac yno gwnaeth enw iddo'i hun fel Trefnydd Cerdd y ddinas, gan ffurfio, yno eto, Cerddorfa Ieuenctid a wnaeth enw iddi ei hun ym Mhrydain gyfan.

* * * *

YN Y flwyddyn 1969 penderfynodd Gŵyl Croesoswallt gynnal gŵyl arbennig i ddathlu canmlwyddiant geni Syr Walford Davies mewn tŷ yn Stryd yr Helyg yn y dref. Gwahoddwyd gweddw'r cerddor enwog a chynifer o'i deulu ag a allai ddod i ginio arbennig, ynghyd â'r annwyl Arglwydd Morris, Isganghellor y Brifysgol a nifer o bwysigion y Coleg, a chynhaliwyd cyngherddau ac oedfa o ganu cynulleidfaol gan ganolbwyntio ar waith Syr Walford.

Digwyddwn fod yn gadeirydd yr ŵyl ar y pryd, a chefais y fraint o wahodd hefyd gynifer o gynfyfyrwyr Syr Walford Davies ag a allwn i gael hyd iddynt. Daeth oddeutu pymtheg o gyn-fyfyrwyr Adran Gerdd y Brifysgol, ac yn eu plith, er mawr hyfrydwch i bawb ohonynt, ac i mi yn enwedig, Jili Winks.

Ar ôl y cyngerdd olaf daeth y criw cyn-fyfyrwyr i'r tŷ am damaid o swper a sgwrs. A sôn am sgwrs! Roedd un wedi dod o ddeheudir Lloegr ar faglau, un arall ar fin naw deg oed ond yn barablus fel plentyn, a phob un ohonynt yn arwyddo dau beth yn neilltuol iawn: rhyw hoffter hiraethus-felys o'r hen ddyddiau wrth droed Syr Walford, a pharch mwy na'r cyffredin tuag at W. H. J. Jenkins, ei *star student*.

Heb amheuaeth, er gwaethaf yr holl siarad a hel clecs am yr hen gyfnod yn Aber ac am gymeriadau'r Brifysgol yn eu dyddiau nhw, seren y cwmni oedd Jili Winks.

Tynnodd inni ddarluniau o'r hen ddyddiau yn Aber fel bod y cwmni yn ail-fyw dyddiau ieuenctid, yn ail-chwerthin am ben hen gastiau, yn ail-gydymdeimlo â dioddefwyr hen drychinebau, yn ail-watwar hen gymeriadau.

Wrth edrych o'n hamgylch ar y cwmni ar f'aelwyd y noson honno, daliais lygaid fy ngwraig. Adwaenai hi Jili Winks o'm blaen i gan eu bod ill dau yn Ysgol Sir Pen-y-bont ar Ogwr, a'i chwaer, Gwladys, oedd cyfeilydd y gerddorfa yn yr ysgol honno. Aeth y tri ohonynt i Goleg Aberystwyth yn nes ymlaen.

Y tebyg yw mai gyda Gomer Jones, athro cerdd Ysgol Pen-y-bont, y dysgodd Jenkins ganu'r ffidil, ac yn yr ysgol honno y dechreuodd ddangos ei fedr fel *gymnast*. Gwenodd y ddau ohonom wrth weld fod tair o'r hen wragedd ar ein haelwyd y noson honno â'r dagrau'n gwlychu eu gruddiau mewn atgof am y dyddiau gynt.

Yr oedd Bill Jenkins wedi cyffwrdd â chalonnau ei gynulleidfa unwaith eto. Pan edrychais arno gwelwn olion y Jili Winks ifanc yn fflam ei lygaid y tu ôl i grychau ei wyneb. Gwelais beth o'r egni a adwaenem yn y 'sgubor ers talwm yn byrlymu trwy frwdfrydedd ei sgwrsio.

Beth fuasai wedi digwydd y noson honno, tybed, pe bai wedi dod â'i ffidil gydag ef?

NODYN: Gweler hanes blynyddoedd olaf W. H. J. Jenkins gan Edwen Mai Richards ar dudalen 11.

## Y Gyfrol £750 wedi mynd

GAN MAI cyfrolau a'u cefndir a'u hawduron a'u apêl, yn arbennig hen gyfrolau, yw diddordeb arbenigol *Y Casglwr* mae'n naturiol mai dim ond hysbysebion am gyfrolau a gynhwysir ynddo. A phan hysbysebir cyfrol arbennig o brin a drud fe holir — be fu'r canlyniad. A fu yna werthu, ac i bwy?

Yn y rhifyn diwethaf yr oedd gan R. G. a J. E. Young, Cricieth, sy'n arbenigo mewn cyfrolau eithriadol o brin, un gyfrol ar werth am £750, sef Cambrobrytannicae (1592).

Dyma'r gyfrol unigol ddrutaf a hysbysebwyd erioed yn *Y Casglwr*. A gafodd ei gwerthu? Do, fe'i gwerthwyd i Gymro a bydd yn aros yng Nghymru. Ac, i amgyffred natur chwyddiant, efallai yr hoffech wybod mai'r pris a godai J.R. Morris yn ei siop yng Nghaernarfon am gopi o'r gyfrol yna slawer dydd oedd pumpunt.

Gyda llaw cofied darllenwyr newydd y medrant osod eu mân hysbysebion am ddim yn *Y Casglwr*.